Y PAPUR GWYRDD

Y cylchgrawn sy'n mynnu parch i'r Ddaear

# Morglawdd yr Hafren: y 'Guru Gwyrdd' wedi colli'r plot?

## Torri'r Carbon: allwn ni ddibynnu ar ein gwleidyddion?



## Cyffro'r cwmni cwsg organig Cymreig

## Gwefr Cwm Gwendraeth

## ... ac, All y Sul achub - y blaned?

Y PAPUR GWYRDD
Rhif 9
Rhagfyr 2008
Ionawr 2009
PRIS: £1
ISSN 1755-3504

Llais Cymraeg yr ymgyrch i warchod y Byd

**Y PAPUR GWYRDD:** *Llais Cymraeg annibynnol i'r ymgyrch i barchu'r Ddaear*

Golygydd: Hywel Davies, 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX Ffôn: 01792 798162
Ebost: ypapurgwyrdd1@btinternet.com Gwefan: www.ypapurgwyrdd.com
Cyhoeddir yn ddeufisol ers Awst 2007 gan gwmni Y Papur Gwyrdd Cyf.
Argreffir Y Papur Gwyrdd gan Wasg Morgannwg, Uned 27, Parc Busnes Mynachlog Nedd, Castell-nedd SA10 7DR yn llwyr ar bapur wedi'i ailgylchu gydag inc llysieuol ar 8 o'r 12 tudalen.

## Ffermio organig — twf yw'r prawf

MAE Tywysog Charles, Llwynywermod, a'i dad, Dug Caeredin, Castell Windsor, yn anghytuno'n llwyr ynglŷn â rhinweddau ffermio organig.

Ddylen ni ddim synnu, felly, bod aelodau blaenllaw pleidiau gwleidyddol hefyd yn anghydweld.

Mae'n ymddangos bod yna enghraifft o hynny ym Mhlaid Cymru wrth i'r Gweinidog Amaeth Elin Jones groesawu a chefnogi twf ffermio organig yng Nghymru, tra bod Richard Parry Hughes — cyn arweinydd y Blaid ar Gyngor Gwynedd ac amaethwr blaenllaw — yn honni nad oes prawf o gwbl o rinweddau'r dull hwn o ffermio.

Cafodd Mr Hughes gryn gyhoeddusrwydd ar y cyfryngau wedi ei honiadau diweddar i'r perwyl hwnnw yn **Y Cymro**.

Ond dywed Ms Jones, "Mae gan ffermio organig ran bwysig iawn i'w chwarae yn nyfodol ffermio yng Nghymru. Mae'n rhaid inni achub ar bob cyfle i ddatblygu Cymru fel ffynhonnell bwyd o safon uchel, a gynhyrchwyd mewn modd sy'n amgylcheddol gynaliadwy." ***Heb brawf?***

Meddai Asiantaeth Bwyd ac Amaeth y Cenhedloedd Unedig, "System ydyw sy'n osgoi gwrteithi synthetig a phlaladdwyr, ynghyd â man greaduriaid a newidiwyd yn enetig, sy'n lleihau llygredd yr awyr, pridd a dŵr, ac sy'n gwella iechyd a ffrwythlondeb planhigion, anifeiliaid a phobl." ***Heb brawf?***

A bu Cynllun Ffermio Organig Cymru mor boblogaidd ym 2008 fel y bydd arian ar gael i'w ehangu wrth ddisgwyl 100 o geisiadau ychwanegol am gymorth i droi'n organig yn 2009. ***Heb brawf?***

**Fel cwsmeriaid, fe geisiwn ni brynu cynnyrch a ddaw o bridd a dŵr glan, sydd hefyd yn hybu byd natur.** ***Digon o brawf— ar ôl gwneud ein gwaith cartref!***

## CYNNWYS

**3** **Mentrau Ciwba yn gwefreiddio Cwm Gwendraeth**



**4** GOLYGYDDOL: Morglawdd yr Hafren – Y Guru ar gyfeiliorn

**5** Y TEULU NATURIOL: Rhiannon Rowley — yn arwain ym myd y cwsg organig ...

**6** A'i thad, Dafydd Davies, Rhandir-mwyn — arwr byd natur yn cael ei anrhydeddu



**7** **Sul Tawel er lles y Byd — Guto Prys ap Gwynfor yn trafod galwad Satish Kumar**

**8** Addewidion $CO_2$ heriol San Steffan — ond dim llaesu dwylo, medd Gordon James

**9** **Gobaith Gwyrdd gydag Obama? - Charlotte Davies yn codi'r *Stars and Stripes***



**COLOFNAU RHEOLAIDD**

6 **Llanw a Thrai** ... yn ymgyrch y Ddaear

10 **Daear-iadur** ... be sy' 'mlaen i achub y byd




## PARCHWN EIN TEULU — TRIGOLION AMRYWIOL Y DDAEAR

**Trwy ein hanes esblygiadol, rydym yn perthyn i'r holl fodau eraill sydd ac a fu – nhw yw ein teulu genetig. Pan welwn rhywogaethau eraill fel ein perthnasau yn hytrach nag fel adnoddau neu nwyddau, bydd rhaid inni eu trin gyda mwy o ofal a pharch.**

**DAVID SUZUKI Sacred Balance**

## POBL GALL — CYNNYRCH PWYSICA'N GERDDI?

Efallai'r rheswm gorau dros arddio yw, yn syml, er mwyn aros yn gall. Mae'r ardd yn encil rhag byd sy'n aml fel petai ar chwal – diffoddwch y teledu a chodwch rhaw fach; byddwch yn teimlo'n well – ond yn fwy pwysig, os awn ati i arddio rydym yn fwy tebyg i fod yn bobl o gytbwysedd seicolegol sy'n gallu gwneud dewisiadau call. Ac mae angen pobl fel yna ar y byd ar hyn o bryd.

**RICHARD HEINBERG Awdur *Peak Everything (New Society 2007)* ac Uwch Gymrawd gyda'r Post Carbon Institute.**

Mudiad Trefi Trawsnewid yn ehangu yn y Gorllewin

# Mentrau lleol pobl Ciwba yn gwefreiddio Cwm Gwendraeth

PROFODD y symudiadau cyntaf i sefydlu cangen o fudiad Trefi Trawsnewid yng Nghwm Gwendraeth yn llwyddiant mawr gyda 50-60 o bobl yn llenwi neuadd gymunedol ym Mhontyberem.

"Roedden ni'n falch iawn gyda'r ymateb," meddai un o'r trefnwyr, Rebecca Storch. "Roedd yr holl seddau'n llawn a rhai pobl yn sefyll."

Cafwyd sgyrsiau am Drefi Trawsnewid gan Rhiannon Rowley, trefnydd gorllewin Cymru y mudiad, cynrychiolwyr o fudiad Calon Teifi, ac Aled Owen o Fenter Cwm Gwendraeth.

Dangoswyd y ffilm **How Cuba Survived Peak Oil** yn ystod y cyfarfod arloesol fel enghraifft ysbrydoledig o sut mae cymunedau'n gallu ymateb i argyfwng megis Brig Olew.

Ers dechrau 1990au, bu raid i Giwba ddelio gyda *blockade* economaidd gan yr Unol Daleithiau a rhan o'r ateb oedd creu amaethyddiaeth drefol, gynaliadwy.

"Roedd pobl wedi'u hymgyffroi," meddai Rebecca, "Yn lle gadael ar hast wedi'r cyflwyniad, fel roedden ni yn ei ddisgwyl, aros gwnaeth y rhan fwyaf er mwyn cynnig syniadau a phwyso arnon ni i fynd ymlaen i sefydlu cangen o Drefi Trawsnewid."

Cafwyd awgrym gan rai o'r bobl hŷn oedd yn bresennol y dylid helpu pobl ifancach i dyfu bwydydd amrywiol yn lleol.

Oherwydd henaint perchnogion, roedd rhai o gerddi mawr yr ardal bellach yn cael eu hesgeuluso. Awgrymwyd efallai y byddai modd i'w rhannu ar fenthyg.


Cytunwyd yn frwd i gynnal cyfarfod arall i sefydlu cangen o fudiad Trefi Trawsnewid yng Nghwm Gwendraeth ac i fynd ati ar fyrder i greu Grŵp Rhannu Sgiliau.

► *Trefnwyd cyfieithu ar y pryd gan Fenter Cwm Gwendraeth a bu ymateb cadarnhaol iawn. Gwnaed defnydd da iawn o'r Gymraeg yn ystod y cyfarfod gan sicrhau bod yr iaith yn gyfrwng trafod wrth ddechrau trefnu'r mudiad amgylcheddol yn y cwm. Llongyfarchiadau i'r trefnwyr ifainc!*



Y dyrfa luosog ym Mhontyberem

► *Bu'r Gymraeg yn amlwg iawn mewn cyfarfod cyhoeddus llwyddiannus arall yn ddiweddar a drefnwyd, y tro hwn, gan gangen Trefi Trawsnewid Llandeilo. Cadeiriwyd gan Elinor Jones, y gyflwynwraig deledu. Meddai Elinor: "Rwy'n credu bod y Gymraeg yn fater o gynaliadwyedd hefyd!" [Gweler Vandana Shiva, tud 7.)*




Poster cyhoeddusrwydd

## Hwyl wrth fynnu bwydydd Fife

**MAE'N flwyddyn ers i'r *Fife Diet* gael ei lansio yn yr Alban – sef ymgyrch i fwyta'n lleol o gynnyrch hen Deyrnas Fife.**

Mae'r cannoedd fu'n rhan o'r ymgyrch yn dweud eu bod wedi mwynhau dysgu am yr amrywiaeth o fwydydd iach sydd ar gael yn lleol, ac i ddod â'r tymhorau naturiol 'nôl i'w bywydau.

Arwyddair y trefnydd Mike Small, oedd *Think Global, Eat Local.* Ei fwriad trwy'r *Fife Diet* oedd lleihau ein hôl troed carbon oherwydd ei bryder ynghylch y difrod a wnawn i'r Ddaear wrth brynu bwydydd o bellafoedd byd.

Meddai: "Rwy'n credu bod yna fethiant ar ran ein harweinwyr gwleidyddol. Dyw pobl ddim yn clywed yr holl stori am y niwed sy'n cael ei achosi i'r amgylchedd.

"Y gwir yw bod rhaid i ni newid oherwydd dyw ein ffordd bresennol o fwyta ddim yn gynaliadwy."


Neges Fife yw bod pobl wedi gallu torri lawr yn sylweddol iawn ar brynu bwyd tramor o'r archfarchnadoedd gan gyfyngu'r prynu hwnnw i bethau gwir dramorol fel coffi, tê a sbeisys.



Fronlas
llandeilo
llety bwtîc, bwyd organig
7 Heol Tomos, Llandeilo SA19 6LB
www.fronlas.com, post@fronlas.com
+44 (0)1558 824733

GOLYGYDDOL | HYWEL DAVIES

# Morglawdd yr Hafren — y Guru Gwyrdd ar gyfeiliorn?



**MAE i Jonathon Porritt barch haeddiannol am ei waith gyda'r mudiad amgylcheddol. Bu'n Brif Weithredwr Cyfeillion y Ddaear. Bellach, fe yw cadeirydd Comisiwn Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth San Steffan.**

Trueni mawr iddo, felly, fychanu eraill yn y mudiad amgylcheddol sy'n gwrthwynebu codi morglawdd ynni-adnewyddol anferth ar draws aber Afon Hafren gan honni nad ydynt yn deall maint y perygl i'r Ddaear.

Parchu'r Ddaear ydy'r bobl y mae Mr Porritt yn eu beirniadu; nid yn ei gweld fel rhywbeth i'w defnyddio fel peiriant cyfleus i ateb gofynion cynyddol dynolryw.

Dyna'r agwedd sy'n arwain at y pwysau gan y diwydiant adeiladu i godi wal enfawr fyddai'n hollti systemau naturiol yr Hafren er mwyn creu dim ond 5% o drydan y Deyrnas Gyfunol, a hynny nid cyn 2023, ar gost o £20 biliwn, gan droi gwaelod y mor yn safle adeiladu enfawr am flynyddoedd. Os ydym o ddifrif ynglyn â thorri ar ein hallyriadau $CO_2$ a ffrwyno newid hinsawdd, gallwn arbed llawer mwy na 5% ein hunain trwy dorri lawr ar ein defnydd gwastraffus o drydan.

Ond yr argraff a roddodd Mr Porritt yn ei raglen bropaganda ar **Week In, Week Out** BBC Wales ym mis Hydref oedd ei fod ef ei hun wedi cael ei hudo i anghofio lles gwirioneddol y Ddaear. Rhoddodd gefnogaeth *carte blanche* i'r morgloddiau sy'n llenwi breuddwydion yr adeiladwyr pwerus.

## PWYSAU GWLEIDYDDOL

*Cyflwynodd Mr Porritt y dadleuon o blaid morglawdd gyda brwdfrydedd. Ond cododd y gwrth ddadleuon fel hwyaid mewn ffair i'w taro i lawr un ar ôl y llall. A'r cyfan yn ysbryd y Guru Gwyrdd oedd wedi gweld y Goleuni.*

Bwriad ei raglen oedd dwyn pwysau gwleidyddol a pharatoi'r cyhoedd ar gyfer cyhoeddiad Ionawr. Dyna pryd cawn glywed gan Lywodraeth San Steffan a Llywodraeth ein Cynulliad Cenedlaethol a eir ymlaen gyda phrosiect ynni adnewyddol yn yr Hafren o gwbl, ac os felly pa gynlluniau fydd ar y rhestr fer.

Y perygl yw y gallai'r jingoistiaeth a fynegir gan Mr Porritt a San Steffan, o weld Prydain yn arwain y byd gyda phrosiect peirianneg sifil 'gwyrdd' honedig enfawr, guddio'r niwed y gallai rhai o'r cynlluniau achosi i systemau naturiol ein planed e.e. trwy ychwanegu'n sylweddol at allyriadau $CO_2$ ar gyfnod argyfyngus.

Mae cynllun Gareth Woodham, er enghraifft, yn cynnig gosod traffordd a pharciau busnes ar forglawdd milltir o led rhwng Sili a Brean gyda ffyrdd newydd cysylltiol ar y ddwy ochr, a sawl marina, wrth gwrs.

A chan gyfeirio at y cynllun mwya' tebyg, meddai swyddog o Adran Busnes, Menter a Diwydio Rheoliadau Llywodraeth y DG: "Cynllun Morglawdd Caerdydd-Weston fyddai'r prosiect perianneg sifil mwyaf erioed yn y wlad hon – yn fwy na'r Olympics."

Onid achos clasurol o golli'r plot ydy hwn? Sef gweld cyfle am brosiect adeiladu enfawr, a achosai ddinistr amgylcheddol di-angen, yn lle hoelio'n sylw'n llwyr ac yn syml ar sut orau i droi llanw rhyfeddol yr Hafren yn ynni adnewyddol er mwyn torri ar ein $CO_2$.

## SYSTEMAU ERAILL

Y gwir yw na roddodd Jonathon Porritt a'r BBC gyflwyniad teg yn eu rhaglen i systemau eraill o gynhyrchu ynni o'r llanw na fyddant yn achosi'r difrod amgylcheddol a ddaw wrth godi a gweithredu morglawdd.

Meddai'r Arglwydd Livsey yn Nhy'r Arglwyddi, er enghraifft: "Does dim dwywaith y gallai technoleg llif llanw gynhyrchu cymaint, os nad mwy, o drydan na morglawdd yr Hafren ... Mae morlynnoedd llanw *[hefyd]* a photensial sylweddol ac fe allent gynhyrchu o leia' gymaint o drydan a morglawdd yr Hafren."

Tanseiliwyd sicrwydd y morgloddwyr yn dra effeithiol gan ymatebwr ar y wê: "Dw i'n codi fy het i'r consortiwm o gwmniau adeiladu sy' bron â thorri eu boliau i ddechrau arllwys concrit i'r afon gyda'u 'cynllun gwneud-arian-cyflym.'

"Cyfeirir at y cynlluniau morglawdd fel 'technoleg wedi'i phrofi.' Yn anffodus, dyw hyn ddim yn wir. Does 'na ddim prosiectau tebyg unman yn y byd. Mae Jonathon wedi syrthio i un o'r celwyddau sy'n cael eu gwthio gan y diwydiant sef y gellir cymharu pwerdy llanw La Rance i'r cynlluniau am yr Hafren.

*"Yn gyntaf, mae La Rance yn bitw. Mae'n debycach i bont. Ac yn fwy sylfaenol, mae'r dŵr yn glir fel crisial, heb fod yn debyg i liw brown ardderchog yr Hafren ... Y peth pwysig yma, sy'n cael ei ddi-ystyrru gan wyddonwyr pleidiol i'r morglawdd, yw'r pridd mân ... pridd mân all droi'r morglawdd yn lwmp marw, enfawr, o goncrit mewn afon afiach, ddi-fywyd, mewn mater o ddegawdau."*

Mae'r gost o £20 biliwn hefyd wedi codi'n ffactor o bwys oherwydd y wasgfa ariannol. Dywed adroddiad gan *Frontier Economics* a gomisiynwyd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, y WWF, a'r RSPB: "Hyd yn oed wrth ddefnyddio'r costau mwya' ceidwadol, mae morglawdd ymysg yr opsiynau mwya' costus sydd ar gael ar gyfer ynni glan."

## Y DDAEAR YN BWYSICACH

Serch hynny, mae argyfwng y Ddaear yn fwy pwysig nag unrhyw argyfwng cyllidol oherwydd ar iechyd naturiol hir-dymor ein planed y mae dynoliaeth yn dibynnu. Felly, nid y gost ddylai benderfynnu sut i symud ymlaen.

Y cwestiwn canolog am ynni'r Hafren yw: pa gynllun neu gynlluniau fyddai'n cynhyrchu'r trydan mwya' adnewyddol, dibynadwy, sylweddol, a lleia' niweidiol i'r Ddaear. A sut fyddwn yn asio hyn gydag ymgyrch brys i dorri lawr ar ddefnydd trydan.

Wrth ystyried ffrwyth yr ymchwiliad maes o law, cawn weld pa mor adnewyddol mewn gwirionedd ydy'r gwyntoedd sy'n chwythu yn San Steffan a Bae Caerdydd. Gobeithio na fu gormod o edmygu ar raglen Morglawdd Mr Porritt, ac y gwel ef ei hun fod peryglon yn ogystal â gobeithion wrth ymdrin â llanw nerthol yr Hafren. ☐



Yr Hafren — cynnal neu niweidio'r Ddaear?

## *RHIANNON ROWLEY'N GWIREDDU BREUDDWYD ...*



# Arwain yn frwd ym myd y cwsg organig

**MAE 'na ddeuoliaeth trawiadol yn perthyn i Rhiannon Rowley. Fel person busnes, mae hi'n ceisio cael pawb i gysgu'n dawelach. Ond fel arweinydd cymunedol, mae hi'n ceisio ein hysgwyd a'n deffro.**

**Gan HYWEL DAVIES**

Yr hyn sy'n asio'r ddeuoliaeth yn undod bywiog a phenderfynnol yw ymroddiad Rhiannon i'r angen i greu cydbwysedd newydd rhwng pobl a'r Ddaear cyn ein bod yn dinistrio'r systemau naturiol sy'n ein cynnal.

O ran byd busnes, aeth Rhiannon ati i sefydlu cwmni Abaca yn Nhŷ Croes, Rhydaman, er mwyn cynhyrchu matresi gwely organig sy'n rhydd o gemegau niweidiol.

O ran ei harweiniad cymunedol, mae Rhiannon wedi bod ar flaen y gad fel trefnydd mudiad newydd Trefi Trawsnewid yng ngorllewin Cymru, yn arbennig yn Llandeilo lle mae'n byw. Dyma'r mudiad gwirfoddol, ysbrydoledig, sy'n ceisio ysgogi pobl i baratoi'n ymarferol ar gyfer byd heb olew fydd hefyd dan bwysau Newid Hinsawdd.

Mae ei pharch at fyd natur, yn ganlyniad i'w magwraeth ym mhentref Rhandirmwyn ynghanol y bryniau hudolus ger Llanymddyfri. Roedd hi'n un o dair merch prifathro'r ysgol leol, Dafydd Davies a'i wraig.

"Roedd dadi'n gweithio dros fyd natur mor gynnar a'r 50au a'r 60au, cyn iddo ddod yn ffasiynol," meddai, "Fel plant fe gawson ni syniad go dda o sut i drin y byd o'n hamgylch."

Mae hi'n cofio'r anawsterau wrth fyw mewn tŷ ysgol oer oedd heb na thrydan na dŵr. Ond cofia, hefyd, ysbryd cymunedol clos a chynnes Rhandirmwyn, a'r hyfrydwch o gael rhyddid i chwarae ar y llethrau cyfagos.

"Roedd hi fel bod yn y nefoedd," meddai Rhiannon, "Ro'n ni'n rhedeg yn wyllt fel plant bach – fi a fy chwiorydd Catrin a Sian – yn mynd lan ar y mynydd y tu ôl i'r tŷ."

Wrth i'w thad arwain brwydrau amgylchedddol, megis yr un i atal boddi cwm cyfagos i greu cronfa ddŵr Llyn y Fran, daeth ymwybyddiaeth o'r ymosodiadau di-feddwl ar fyd natur yn rhan o'i gwead.

*Ond daeth yr ysgogiad penodol i fentro i fyd busnes wrth iddi weithio gyda chwmni gwneud matresi gwely. Yno gwelai gymaint o gemegau peryglus oedd yn rhan o'u gwneuthuriad – chwynladdwyr ar y cotwm, hylifau atal tân, ac ati.*

"Blwyddyn ar ôl blwyddyn, roeddech chi'n becso am eich iechyd eich hunan a iechyd cydweithwyr," meddai Rhiannon, "Dechreuais i feddwl sut oedd modd torri lawr ar y pethach gwael."

Yn ystod cyfnod Clwy'r Traed a'r Genau yng Nghymru, daeth i gysylltiad a chwmni cynhyrchu gwlan organig yn Ffrainc, a sylweddolodd mai dyma'r ffordd ymlaen.

Wrth i'r cwmni y gweithiai iddo wrthod mynd ymhellach i'r cyfeiriad hwnnw, penderfynnodd Rhiannon fynd ati i geisio sefydlu cwmni matresi cwbl organig ei hun — sef Abaca.

"Roedd e'n swnio'n rhwydd," meddai, "ond cymerodd dair blynedd o baratoi cyn dechrau cynhyrchu yma yn Nhŷ Croes yn 2005."

Bu raid annog cwmni arall i fentro i baratoi gwlan organig at safonau'r Soil Association. A bu raid dod o hyd i gynhyrchwyr llieini cotwm organig, yn gyntaf yn yr India ac yna yn Ne Carolina.

Bu cyfnod o bwysau ariannol mawr: "Yn y mis cyntaf, dim ond un matres cot bach werthon ni – yn costio £135! Bues i'n becso o ddifrif am arian am ddwy flynedd."

Ond bellach fel yr unig gwmni sy'n cynhyrchu matresi organig yng ngwledydd Prydain, mae Abaca'n gwerthu, ar gyfartaledd, 250 o fatresi'r mis.

"Ry'n ni'n gwerthu dros Brydain i gyd," meddai Rhiannon, "ac i wledydd fel Kuwait, Gwlad Groeg, y Swisdir, Iwerddon, Ffrainc ac America."

Ar wal ei swyddfa yn Nhŷ Croes, mae arwyddion sy'n adlewyrchu ysgogiad arall i ymroddiad Rhiannon – sef calendr o'r **Church Times** a chroesau Cristnogol: mae hi hefyd yn Warden yn Eglwys Crist, Caerfyrddin.

*"Mae crefydd yn rhoi'r cryfder imi wybod yn bersonol bod yr hyn rwy'n ei wneud yn iawn," meddai. "Y peth mawr i fi yw gwybod bod ein matresi organig yn golygu nosweithiau o gysgu iach i'n cwsmeriaid. Mae'n rhoi lot o bleser i wybod ein bod yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl."* ■





**[Chwith] Rhiannon Rowley a'i merch Rebecca Davies yn asesi matresi a (de) Cherise Simmonds yn gwnïo gorchudd. Mwy o luniau o weithgarwch cwmni organig Cymreig Abaca, tud 11.**

## MATRESI ORGANIG ABACA YN DENU'R SIOPAU MAWR

**Ers diwedd Hydref, mae matresi organig Abaca o Dŷ Croes, Rhydaman, yn cael eu gwerthu yn siopau mawr cwmni John Lewis.**

**Gyda chwech o weithwyr, mae Abaca wedi gweld cynnydd o 30% yn eu gwerthiannau yn ystod 2007 / 2008 ac mae'r perchennog Rhiannon Rowley'n gobeithio y ceir cynnydd tebyg trwy John Lewis yn y misoedd i ddod.**

**"Hyd yn hyn, ry'n ni wedi bod yn gwerthu'n uniongyrchol i gwsmeriaid, a hefyd trwy gwmniau eraill.**

**"Y peth pwysig imi am y perthynas newydd gyda John Lewis yw eu bod yn gwmni sy'n marchnata'n gryf. Wy i ddim am i'n matresi organig ni gael eu trin fel *Trophy Products* sy'n ennill tic yn yr *Organic Box!*"**

# Canmol gwarchodwr di-flino byd natur

**BYDDAI'R beirdd Cymraeg fynegodd ddicter y Cymry ynghylch difrodi coedwigoedd Glyn Cynon a Marchaeth yn y Canol Oesoedd wedi bod wrth eu bodd yn Eisteddfod Crymych ym mis Hydref wrth i'r naturiaethwr Dafydd Davies, Rhandirmwyn, gael ei anrhydeddu.**

Treuliodd Dafydd Davies oes yn gweithio'n ddiwyd i adnewyddu parch y Cymry at fywyd gwyllt, i amddiffyn ein hardaloedd gwledig naturiol rhag rhaib, ac i greu gwarchodfeydd natur – a hynny gan ail-gydio'r Gymraeg gyda'n hetifeddiaeth naturiol.

Efallai ei gyfraniadau pennaf oedd sefydlu Cymdeithas Edward Llwyd ym 1978, lansio cylchgrawn Y Naturiaethwr ym 1979, a chyhoeddi cyfrol Enwau Cymraeg ar Blanhigion ym 1995 ar gais yr Amgueddfa Genedlaethol.


Oherwydd ei gyfraniad hynod werthfawr i'r genedl, dyfarnwyd Tlws Coffa Robina Elis Gruffydd am eleni i Dafydd Davies. Gwnaed y cyflwyniad iddo yn Eisteddfod Crymych gan Dyfed Elis Gruffydd.

Unwyd yr enwau 'Dafydd Davies' a 'Rhandirmwyn' wrth iddo fe a'i ddiweddar wraig Joan symud i'r pentref ger Llanymddyfri wedi iddo gael ei benodi'n bennaeth ar yr ysgol gynradd leol y 1950au. Codasant dair o ferched – Sian, Catrin a Rhiannon (sy'n cael sylw ar dudalen 5 o'r Papur Gwyrdd hwn).

Taflodd ei hunan gydag arddeliad i frwydrau amgylcheddol cynnar. Creodd warchodfa natur mewn allt dderw gerllaw'r ysgol fach; bu'n arwain ymgyrch aflwyddiannus i atal creu cronfa ddŵr Brianne nid nepell o'i gartref; a bu hefyd yn flaenllaw yn yr ymgyrch i achub y barcud coch sydd bellach i'w weld yn hapus ledled Ceredigion, Shir Gar a Sir Benfro.

Fe'i gwelwyd, hefyd, ar fyrddau cyrff cenedlaethol fel Pwyllgor Cymru o'r hen Gyngor Gwarchod Natur a Phwyllgor Cymru y Comisiwn Coedwigaeth. Bu'n gadeirydd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Dyfed ac yn aelod o Bwyllgor Cymru o Gymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain.

Ond i lawer, bydd y teithiau esboniadol yr hoffai eu harwain gydag aelodau Cymdeithas Edward Llwyd, ynghyd â'i waith gyda chylchgrawn Y Naturiaethwr, yn goron ar y cyfan o'i ymdrechion.



Dafydd Davies, Rhandirmwyn

Bu lles byd natur yn ganolog i holl weithgarwch Dafydd ar hyd y blynyddoedd. Yn hyn o beth, cyfeiriai'n frwd at yr ysbrydoliaeth a gafodd trwy astudiaethau'r naturiaethwr arloesol Edward Llwyd o'r ail ganrif ar bymtheg.

Cafodd foddhad mawr, felly, wrth arwain grwpiau o naturiaethwyr Cymreig i Rydychen yn 2003 a 2006 i gofio am ei arwr ysgolheigaidd.

Da iawn bod pwyllgor Tlws Coffa Robina wedi gweld bod Dafydd Davies, fel Llwyd o'i flaen, yn haeddu canmoliaeth am ei waith amhrisiadwy wrth drysori cyfoeth naturiol y Ddaear yr ydym yn rhan ohono.

## ENNILL A CHOLLI YM MRWYDR Y DDAEAR Crynodeb 2 fis

### SHELL YN CILIO

CAFWYD llwyddiant amgylcheddol enfawr yn Iwerddon wrth i gwmni Shell dderbyn o'r diwedd bod gwrthwynebiad lleol i'w cynllun i greu glanfa nwy yn Co Mayo yn drech na nhw. Roedd pobl Rossport wedi atal gwaith gan y llong gosod pibau Solitaire trwy amrywiaeth o ddulliau: bu pysgotwyr yn atal mynediad i'r Solitaire i'r bae hyfryd, meddianwyd safleoedd y cwmni, trefnwyd protestiadau ar y môr i atal yr holl gynllun, carcharwyd pump. Ond, yn goron ar y cyfan, cyhoeddodd arwres leol, Maura Harrington, na fyddai'n bwyta dim nes i long Shell adael moroedd Gwyddelig. Gadawodd y Solitaire 11 diwrnod yn ddiweddarach.

### GWRTHOD GLO BRIG

MAE ymgyrch mudiad Earth First! yn dal i brotestio'n gryf yn erbyn safle glo brig newydd yn Swydd Derby ble mae cwmni UK Coal ar fin dechrau cloddio. Yn ystod mis Tachwedd torrodd gwrthdystwyr i'r safle ar ddau achlysur. Cynhaliwyd picnic torfol ar y safle gan ddenu swyddog o'r Uchel Lys i geisio'u hatal. Yna, dringodd aelodau ar beiriannau gan atal gwaith am dros ddwy awr. Mae grŵp lleol yr Erewash and Amber Valley Environment Network hefyd wedi cynnal protest gan 40 o bobl wrth fynedfa'r safle. Rhoddwyd caniatad i'r cloddio gan Weinidog Cymunedol y Llywodraeth Lafur, Ruth Kelly, er gwrthwynebiadau gan bobl leol, sawl AS, y cyngor lleol, a Chyngor Sirol Derby.

### BRWYDR v SOYA

YM Mharaguay mae mudiadau gwerin cefn gwlad yn gwrthwynebu plannu soya GM gan gwmniau mawrion. Maen nhw'n mynnu cadw'u hawl i fynd ar diroedd, yn galw am ddiwygio perchnogaeth tir, ac yn pwyso am ataliad ar chwistrellu chwyn-laddwyr sy'n effeithio'n ddrwg ar eu cymunedau. Er gwaethaf addewidion y llywodraeth, mae gwersylloedd gwrthdystio wedi cael eu chwalu trwy drais. Llofruddiwyd dau o arweinwyr y mudiad protest ac mae cannoedd o bobl wedi cael eu harestio.

### SIOM $CO_2$ CYMRU

RHYDDHAWYD ystadegau siomedig iawn gan Lywodraeth Cymru sy'n dangos ein bod yn methu â chyrraedd ein targedau nwyon tŷ gwydr. Yn lle gostwng, fel sy'n hanfodol i iechyd ein Daear, cododd ein hallyriadau $CO_2$ niweidiol o ryw 2 filiwn tunnell rhwng 2006 a 2007. Nôd Llywodraeth y DG fu cwtogiad o 20% rhwng 1990 a 2010, ond dim ond 2% yn is na lefel 1990 mae allyriadau Cymru. Pwerdai glo yw prif ffynhonnell $CO_2$ Cymru: cododd allyriadau pwerdai Cymru o 24% ers 1990 o gymharu a chwymp o 10% i'r DG i gyd.
*[Cyfeillion y Ddaear]*

### INDIA'N METHU?

CYHOEDDODD Llywodraeth yr India strategaeth i ffrwyno newid hinsawdd gydag ynni haul yn ganolog iddo. Meddai'r Prif Weinidog Manmohan Singh: "Byddwn yn tynnu ynghyd ein holl dalentau gwyddonol, technolegol a gweinyddol … i weddnewid bywydau ein pobl." Ond honnir bod y cynllun wedi methu'r cyfle i gymryd camau breision tuag at greu economi carbon isel. Mae Bittu Saghal, golygydd prif gylchgrawn amgylcheddol India, **Sanctuary,** yn disgrifio'r cynllun fel "rhy ychydig a rhy hwyr" na wnaiff fawr ddim i atal newid hinsawdd.

### HEN DRYSORAU

CHWALWYD y gred bod hen goedwigoedd yn niwtral o ran allyriadau carbon. Mae ymchwil mewn 519 o safleoedd mewn 6 gwlad wedi profi bod coedwigoedd 15 - 800 mlwydd oed yn dal mwy o $CO_2$ nag maen nhw'n rhyddhau, sef 10% o'r sugno byd eang. Gwarchodwn ein hen goedwigoedd! *[Cylchgrawn Nature]*

## Y Sul Tawel — 'addasu egwyddor er mwyn atal ein rhuthro ynfyd'

# Gorffwys Sabothol yn asio lles pobl a lles y Ddaear



**GUTO PRYS AP GWYNFOR YN YMATEB I YMGYRCH Y *SUL TAWEL* A LANSIWYD GAN SATISH KUMAR.**

***Llun: Cymdeithas y Cymod***

**DIDDOROL iawn oedd darllen y sylwadau gan Satish Kumar yn y rhifyn diwethaf o** Y Papur Gwyrdd **am adfer y Sul tawel.**

Fel y dywed Kumar, bu'r Sul yn ddiwrnod o orffwys yn ein diwylliant Ewropeaidd (Gwledydd Cred), oherwydd yr ymdrech i gadw at gyfarwyddiadau'r Ddeddf yn yr Hen Destament; er enghraifft y gorchymyn cyntaf yn y Deg Gorchymyn yw:

> *"Cofia'r dydd Saboth, i'w gadw'n gysegredig. Chwe diwrnod yr wyt i weithio a gwneud dy holl waith, ond y mae'r seithfed dydd yn Saboth yr Arglwydd dy Dduw; na wna ddim gwaith y dydd hwnnw, ti na'th fab, na'th ferch, na'th was, na'th forwyn, na'th anifail, na'r estron sydd o fewn dy byrth; oherwydd mewn chwe diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd y nefoedd a'r ddaear, y môr a'r cyfan sydd ynddo; ac ar y seithfed dydd fe orffwysodd; am hynny, bendithiodd yr Arglwydd y dydd Saboth a'i gysegru."*

Erbyn cyfnod Iesu o Nasareth yr oedd y gyfundrefn Iddewig a wrthwynebai Iesu yn dehongli'r gorchymyn hwn fel un i ufuddhau iddo er mwyn peidio digio Duw. Yn anffodus, o'r safbwynt hwnnw y dehonglwyd y gorchymyn yn ein traddodiad Anghydffurfiol ninnau hefyd, ar waetha'r ffaith fod Iesu wedi pwysleisio'r ystyr gwreiddiol pan ddywedodd:

> *"Y Saboth a wnaethpwyd er mwyn dyn ac nid dyn er mwyn y Saboth."*

<u>Fe gyflwynwyd yr egwyddor o'r Saboth er lles y ddynoliaeth, fel y crewyd y ddaear er ein lles – ac mae unrhywbeth sy'n bygwth y lles hwnnw yn groes i'r egwyddor dwyfol.</u>

Rhaid pwysleisio taw rhan o egwyddor y Saboth yw'r hyn a ddywedir am y seithfed dydd. Mae'r egwyddor ei hun yn llawer ehangach na hynny, ac yn anffodus fe anghofiwyd hynny hyd yn oed gan ein hynafiaid piwritanaidd.

Perthyn y Saboth i egwyddor y Cyfamod, sy'n sylfaenol i'n ffydd fel Cristnogion (yn ogystal â'r Iddewon). Hanfod y Cyfamod yw diffino perthynas Duw â'r ddynoliaeth a'r Cread. Fe'i bwysleisir yn hanes Noa:

> *Dyma fi'n sefydlu fy nghyfamod â chwi ac â'ch had ar eich ôl, ac â phob creadur byw gyda chwi, yn adar ac anifeiliaid, a'r holl fwystfilod gwyllt sydd gyda chwi ... gosodaf fy mwa yn y cwmwl, a bydd yn arwydd cyfamod rhyngof a'r ddaear.*

Adnewyddir y cyfamod gydag Abraham sy'n pwysleisio awydd grasol Duw i gael Abraham i gydweithio ag ef fel y bydd y patriarch a'i ddisgynyddion yn fendith i'r cenhedloedd wrth iddynt lynu wrth y cyfamod:

> *... oherwydd yn ddiau daw Abraham yn genedl fawr a chref, a bendithir holl genhedloedd y ddaear ynddo? .... a thrwyddynt bendithir holl genhedloedd y ddaear, am iti ufuddhau i'm llais.*

Ffurf sylfaenol y cyfamod i'r Israeliaid yw Cyfamod Sinai (Exodus 20-23). Ynddo mae Duw y rhyddhawr yn gosod trefn (y Gyfraith) ar y berthynas rhyngddo ef a'r genedl, rhwng y bobol â'i gilydd ac â'r cread.

Mae'r cyfamodau hyn yn cysylltu lles y Cread gyda rhyddid a chyfiawnder i'r bobol, a pwysleisir egwyddor letach y Saboth:

> *Llefarodd yr Arglwydd wrth Moses ar Fynydd Sinai, "Dywed wrth bobl Israel, 'Pan ewch i mewn i'r wlad yr wyf yn ei rhoi i chwi, y mae'r wlad i gadw Saboth i'r Arglwydd. Am chwe blynedd byddwch yn hau eich meysydd, ac am chwe blynedd yn tocio eich gwinllannoedd ac yn casglu eu ffrwyth: ond ar y seithfed flwyddyn bydd y wlad yn cael Saboth o orffwys, sef Saboth i'r Arglwydd, ac nid ydych i hau eich meysydd nac i docio eich gwinllannoedd ... ... y mae'r wlad i gael blwyddyn o orffwys.'"*

<u>Mae'r egwyddor sabothol i orffwys dynol yn cael ei estyn i'r ddaear hefyd. Ac ar ben hynny pwysleisir egwyddor y Jiwbilî, sef Saboth y Sabothau:</u>

> *Cysegra'r hanner canfed flwyddyn a chyhoedda ryddid trwy'r wlad i'r holl drigolion: bydd hon yn flwyddyn jiwbili ichwi, a bydd pob un ohonoch yn dychwelyd i'w dreftadaeth ac at ei dylwyth ... ... Felly, pan fyddwch yn gwerthu neu'n prynu tir ymysg eich gilydd, peidiwch a chymryd mantais ar eich gilydd ... ...Ni ellir gwerthu tir yn barhaol, oherwydd eiddof fi yw'r tir, ac nid ydych chwi ond estroniaid a thenantiaid i mi...*

Pechod gwaeth na gor-bwysleisio'r Saboth (Sul) yn ein traddodiad Anghydffurfiol (dyna esgus nifer dros doi cefn ar dawelwch y Sul) yw'r ffaith ein bod wedi bwrw'r egwyddor o'r neilltu'n llwyr. Dim ond drwg all ddod i'n byd o ganlyniad i hyn.

Pwysleisio egwyddor y Saboth sydd ei angen – mae angen i bobol orffwys, cael amser i ystyried, i fyfyrio, i addoli bob wythnos; bob saith mlynedd mae angen i'r tir orffwys yn llwyr; a phob hanner canrif mae angen i gymdeithas orffwys ac ail-asesu, ail-ddosbarthu.

**Hyn yn hytrach na'r rhuthr ynfyd sy'n cael ei gam-alw'n 'ddatblygiad', 'gwella'. Pwyllwch, ail-ystyriwch – dewch a dimensiwn y dwyfol mewn i'r ystyriaeth.**

<u>Mynd ati i addasu'r egwyddor hon ar gyfer y byd modern sydd ei angen; egwyddor sy'n perthyn i hanfod y Cread – i'r creawdwr ei hun.</u> ☐

### Atgyfodi'r Sul tawel



**MAE cylchgrawn amgylcheddol** Resurgence **wedi lansio ymgyrch i atgyfodi'r Sul araf, traddodiadol (Cymreig?) fel un ffordd i bawb ohonom geisio torri lawr ar ddefnydd ynni.**

**Meddai Satish Kumar, sydd wedi bod yn olygydd ar y cylchgrawn ers 40 mlynedd: "Hyd yn ddiweddar, bu'r Sul yn ddydd o orffwys, yn ddydd o adnewyddu ysbrydol, ac yn ddydd i deuluoedd ddod ynghyd.**

**"Ond rydym wedi newid y Sul o fod yn ddydd o orffwys i fod yn ddydd o siopa, hedfan a gyrru.**

**"Yng nghyd-destun arllwys gormod o garbon i'r atmosffer, sy'n achosi canlyniadau catastroffig, gallwn a dylwn adfer y Sul fel dydd i Gaia, y Ddaear.**

**"Gallwn yn**

**Satish Kumar ac Ymgyrch y Sul Tawel — YPG8, Hydref Tachwedd**

### CYFOETH DIWYLLIANT

**Amrywiaeth yw nodwedd natur a sail cydbwysedd ecolegol. Mae eco-sustemau amrywiol yn esgor ar ffurfiau bywyd amrywiol ac ar ddiwylliannau amrywiol. Mae cyd-esblygiad diwylliant, ffurfiau bywyd, a chynefinoedd wedi cadw amrywiaeth y blaned. Mae amrywiaeth ddiwylliannol ac amrywiaeth fiolegol yn mynd law yn llaw.**

**VANDANA SHIVA**

## Yr argyfwng ariannol — cyfle i ddelio â newid hinsawdd?

DWI'N gwybod ei bod yn swnio'n groes i synwyr cyffredin, ond yn ystod cyfnodau o bwysau mae pobl yn barod i ystyried yr amhosibl. Datblygodd y Banc Cydweithredol ei bolisïau moesol wrth i'r dirwasgiad yn ystod cyfnod cynnar y 90au ddechrau dod i ben – a hynny gyda Thatcher yn llywodraethu a Milton Friedman yn brif ddylanwad ar economeg. Os mae'r wasgfa gredyd *[bresennol]* yn arafu prynwriaeth byd-eang, efallai hyn fydd yn cynnig y cyfle-anadlu hanfodol inni gael delio ag allyriadau $CO_2$ o ddifrif.

**PAUL MONAGHAN Swyddog Cynaliadwyedd Grŵp y Cooperative (gwefan Forum for the Future)**

YMGYRCH Y BOBL YN ENNILL CEFNOGAETH SENEDD SAN STEFFAN. OND CWESTIWN PWYSIG YN AROS ...

# Fydd gwleidyddion yn cadw at eu haddewidion i dorri'n llym ar $CO_2$?



**Senedd San Steffan ar y blaen wrth osod targedau i dorri'n llym ar nwyon tŷ gwydr.**

**LLUN: http://photoeverywhere.co.uk**

**MAE'R Mesur Newid Hinsawdd, sydd wedi derbyn cefnogaeth mwyafrif llethol Tŷ'r Cyffredin, yn fuddugoliaeth ysbrydoledig i nerth y werin trwy ymgyrch Yr Her Fawr.**

Wedi'i lansio dros dair blynedd yn ôl gan Gyfeillion y Ddaear, roedd Yr Her Fawr yn anelu at sicrhau targedau llym i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Daeth yr ymgyrch ag 80 o fudiadau at ei gilydd yn cynrychioli dros bedair miliwn o bobl o gefndiroedd amgylcheddol, undebau llafur a chrefyddol. Ymwelodd dros 200,000 o bobl â'u ASau, neu ysgrifennu atynt, i fynnu gweithredu ar frys ar y pwnc.

*Yng Nghymru, cefnogwyd Yr Her Fawr gan selebs fel Cerys Mathews, y band rapio Goldie Lookin' Chain, a DJ Radio Cymru a Radio 1 Huw Stephens. Derbyniwyd cefnogaeth gref gan Gymry oedd yn ymweld â digwyddiadau fel y Sioe Frenhinol Gymreig a'r Eisteddfod Genedlaethol.*

Mae'r Mesur yn cynnig llygedyn o obaith wrth inni barhau i deithio i'r cyfeiriad anghywir. Er tystiolaeth frawychus gan wyddonwyr hinsawdd, mae'r ymateb gwleidyddol yn parhau i fod yn hollol annigonol gydag allyriadau byd-eang o garbon diocsid yn codi'n gyflymach nag erioed.

Yng Nghymru, mae'r data mwya' diweddar yn dangos bod allyriadau $CO_2$ wedi codi o 2 filiwn o dunnelli rhwng 2005 a 2006.

**Gan GORDON JAMES**

**Cyfarwyddwr Cyfeillion y Ddaear Cymru**



***Ond, bellach, mae llywodraeth y Deyrnas Gyfunol wedi gosod ei hun fel arweinydd byd-eang trwy ymrwymo'n gyfreithiol i dargedau i dorri allyriadau nwyon tŷ gwydr o 80% erbyn 2050.***

Bydd y Mesur Newid Hinsawdd hefyd yn gosod cyllidebau pum-mlynedd fydd yn rhoi cyfyngiad ar allyriadau'r DG yn ystod pob cyfnod. Bydd rhychwantau targedau blynyddol hefyd yn cael eu gosod fel ffordd o sicrhau y bydd y wlad yn parhau ar y cwrs cywir i gyrraedd y cyllidebau pum-mlynedd. A diolch i wrthryfel gan dros 50 AS Llafur, bydd allyriadau gan awyrennau a llongau yn dod dan y ddeddf o 2012.

Wrth groesawu'r Mesur, cawsom ein rhybuddio gan Ed Milliband, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd, ynglyn â "faint o newid fydd ei angen er mwyn i ni gyrraedd ein hamcanion ... [newid] fydd yn galw am ymateb gan bob rhan o gymdeithas." *[Hyd 22, 2008, Tŷ'r Cyffredin]*

Mae Cyfeillion y Ddaear yn cydnabod pa mor anferth yw'r her ac wedi nodi pedwar math o weithgarwch hanfodol. Dyma nhw:

**Lansio rhaglen** dull-Apolo fydd yn gwneud ynni adnewyddol yn brif ffynhonnell ynni yn yr DG

**Dechrau ymgyrch** enfawr i sicrhau effeithiolrwydd ynni gan gynnwys dyblu effeithiolrwydd ynni pob cartref yn y DG

**Rhoi cyfrifoldebau**, pwerau ac adnoddau i awdurdodau lleol i wneud toriadau dramatig mewn allyriadau carbon ar y lefel leol

**Rhoi cynlluniau** o'r neilltu i ehangu meysydd awyr a chodi pwerdai glo newydd os nad ydynt yn dal a storio'u hallyriadau carbon.

Mae'r momentwm i leihau allyriadau niweidiol hefyd yn cael eu hybu yng Nghymru wrth i Lywodraeth y Cynulliad osod targed blynyddol i dorri allyriadau o 3% o 2011 ym mhob ardal o gyfrifoldeb datganoledig. Gallai Cymru arwain y bydd wrth ddelio â newid hinsawdd.

Ond rhaid i'n optimistiaeth gael ei ffrwyno gan gryn dipyn o syniciaeth gwleidyddol. Yn fwy na thebyg, wrth i amgylchiadau fynd yn anoddach, bydd gwleidyddion yn trio osgoi eu cyfrifoldebau dan y mesur. Gwelwn yn barod fod nifer o'r rhai gefnogodd y mesur hefyd yn cefnogi polisiau fel ehangu pwerdai glo ac adeiladu ffyrdd a meysydd awyr fydd yn ansefydlogi hinsawdd y byd ymhellach.

Mewn llawer ffordd, megis ddechrau yw ein hymgyrch. Bydd rhaid i ni weithio'n galetach nag erioed i sicrhau bod ein cynrychiolwyr gwleidyddol yn cyflawni'r toriadau nwyon tŷ gwyrdd maen nhw wedi ymrwymo i'w sicrhau trwy'r Mesur Newid Hinsawdd. ◻



**Mae Cymru'n dal i gynhyrchu mwy o $CO_2$. Fydd Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol yn mynnu toriadau o 3% y flwyddyn?**

## Yn America — gobaith newydd ymgyrchwyr y Ddaear



# Obama - rheswm dros ail godi'r faner

**AR FORE Dydd Mercher y 5ed o Dachwedd aethom ati'n llawen yn ein tŷ ni i chwilio ar waelod drôr bureau sydd wedi derbyn pob math o sbwriel dros y blynyddoedd gan dynnu allan baner fach Americanaidd.**

**Gan DR CHARLOTTE DAVIES**



Rhoisom y faner yn ffenestr ffrynt ein cartref i ddangos ein balchder fel teulu bod Barack Obama wedi cael ei ethol fel arlywydd nesaf yr UDA.

Americanes ydw i. Cafodd y faner ei phrynu tua 30 o flynyddoedd yn ôl wrth i Hywel a minnau briodi a minnau'n symud i fyw yng Nghymru. Erbyn hyn rydw i'n ddinesydd o'r wlad hon – er, arhosais am ddyfodiad y Cynulliad Cenedlaethol cyn cymryd y cam yna.

Doedd y faner ddim wedi gweld golau dydd am wyth mlynedd gan fod gyda ni gymaint o gywilydd a phryder a thristwch ynglyn â gweithredoedd George W. Bush sydd wedi bod mor niweidiol i'n byd. Ar wahan i'w ryfeloedd erchyll, torrodd 'Dybia' bob math o raglenni gwarchod yr amgylchedd, gan wadu bod allyriadau'n effeithio ar yr hinsawdd a rhoi rhwydd hynt i'w gyfeillion yn y diwydiant olew.

Yn waeth na dim, gwrthododd arwyddo Cytundeb Hinsawdd Kyoto – ergyd drom i obeithion i warchod y Ddaear rhag effeithiau nwyon tŷ gwydr.

Wrth gwrs, doedd Bush ddim llawer gwaeth na Ronald Reagan, oedd, gyda Thatcher, wedi datblygu'r syniadaeth o'r farchnad rydd ryngwladol. Roedd Reagan wedi apwyntio fel ysgrifennydd cartref dyn oedd yn credu bod dim ots os oeddem yn rheibio'r ddaear gan fod y *'rapture'* ar fin digwydd (sef esgyniad yr achubedig rhai i'r Nefoedd!). Fel symbol o'i agwedd at y cyfan, tynnodd Reagan y paneli haul oddi ar y Tŷ Gwyn!

Mae rhai yn y mudiad amgylcheddol sy'n ansicr am ymroddiad Obama gan nodi y derbyniodd lawer o arian gan y diwydiant glo. Ond er mor ofalus ac amhendant roedd ei ddatganiadau polisi yn ystod yr ymgyrch, mae arwyddion gobeithiol.

Mae gan Obama record cryf fel seneddwr o bleidleisio dros yr amgylchedd, gan gynnwys ceisio gosod terfyn go iawn ar allyriadau tŷ gwydr a chefnogi ynni glan, fel gwynt a haul, yn lle mwy o dyllu am olew.

Mae e hefyd wedi awgrymu y bydd fel Arlywydd —

● yn anelu at greu pum miliwn o swyddi gwyrdd newydd trwy fuddsoddi $150 biliwn dros 10 mlynedd i sbarduno cwmniau preifat i greu dyfodol ynni glan.

● yn sicrhau bod 10% o drydan yr UD yn dod o ffynonellau adnewyddol erbyn 2012, a 25% erbyn 2025.

● yn gwthio am filiwn o geir hybrid erbyn 2015, ac ail-ehangu ar wasanaethau rheilffordd America.

Mewn erthygl i'r *New York Times* ar ôl yr etholiad, awgrymodd Al Gore – oedd wedi cefnogi Obama – fod y 'dewis ysbrydoledig a gweddnewidiol' o Barack Obama yn rhoi cyfle i ddechrau ar 'achubiaeth brys o wareiddiad dynol' rhag bygythiad argyfyngol newid hinsawdd. Mae Gore yn cynnig cynllun i alluogi America i gynhyrchu 100% o'i thrydan o ffynonellau di-garbon o fewn 10 mlynedd *(YPG8, Hydref / Tachwedd, tud 7).*

*Wrth nodi'r gefnogaeth frwd a holl-bwysig roedd ymgyrch Obama wedi'i dderbyn gan bobl ifainc, mae Al Gore yn gobeithio y byddan nhw'n chwarae rhan ganolog yn yr ymgyrch i sicrhau'r newidiadau hanfodol i achub ein Daear.*

Na, fyddwn ni ddim yn gadael y faner Americanaidd yn ein ffenestr yn hir – gwell 'da ni blanhigion! – ond, fel Al Gore, rydym yn credu bod ethol Barack Obama yn codi gobaith newydd y bydd America yn dechrau chwarae rhan adeiladol yn yr ymgyrch dros achub ein cartref planedol.

Yn holl bwysig, gobeithiwn y bydd Tŷ Gwyn Obama yn cynnig arweiniad clir i ymdrechion yn ystod trafodaethau hinsawdd Copenhagen ddiwedd 2009 i roi cyfyngiad clir, effeithiol ar allyriadau carbon. ■

## AMERICA I SYMUD Y TU HWNT I LO BRWNT?

**Neges Greg Haegele, Cyfarwyddwr Cadwraeth y Sierra Club, mudiad amgylcheddol mwyaf America:**

**'Yr Her i America**: Arwain y byd wrth greu economi ynni newydd. Gallwn lwyddo. Y cwestiwn yw sut. Trwy fuddsoddi mewn gwynt, haul, ac ynni adnewyddol eraill. Trwy fynnu trafnidiaeth glan ac effeithiol. Trwy ail-strwythuro marchnadoedd ynni i gefnogi swyddi gwyrdd a gwneud defnydd effeithiol o ynni — gan beidio â chefnogi corfforaethau Deinosoraidd olew, glo a nwy y ganrif ddiwethaf. Dydyn ni ddim yn gallu parhau gyda busnes fel arfer. Os bydd y 100 a mwy o bwerdai glo sy'n cael eu hawgrymu yn cael eu codi, bydd y llygredd gaiff ei bwmpio i'r awyr gan gynhesu'r byd yn gwneud pob ymdrech arall gennym i atal newid hinsawdd yn amherthnasol.'

## *Ystrywiau Bush*

*YN ei wythnosau olaf, mae George W. Bush yn gwthio mesurau trwodd i lacio rheolau amgylcheddol er mwyn sicrhau mwy o elw i'w ffrindiau corfforaethol::*

*► Llacio cyfyngiadau ar ryddhau nwyon tŷ gwydr gan ddiwydiannau*

*► Rhyddhau cwmniau glo i greu safleoedd glo brig newydd trwy symud copaon mynyddoedd cyfan*

*► Gwanhau safonau dŵr yfed*

### *AR Y LLAW ARALL ...*

*Ar Dachwedd 13, mewn dyfarniad pellgyrhaeddol iawn, cyfyngwyd ar ryddid diwydiant glo America i allyru $CO_2$ o'u pwerdai. Gwrthododd Bwrdd Apêl benderfyniad yr* 'Environmental Protection Agency' *[sic] nad oedd angen ffrwyno allyriadau.*

# Daear-iadur Y Papur Gwyrdd



**Beth sy' 'mlaen yng Nghymru i warchod y byd?**

## BRIG OLEW A GWYNEDD

BRIG olew fydd pwnc cynhadledd arbennig yn Nhrawsfynydd ar Ddydd Mawrth, 2 Rhagfyr.

Cynhelir **Gwynedd Heb Olew** gan Bartneriaeth Amgylcheddol Gwynedd yng Nghanolfan Gynadledda Atomfa Trawsfynydd.

Bydd arbenigwyr yn son am effeithiau prinder olew ar yr economi byd-eang, a Gwynedd yn benodol, a bydd cyfle i drafod goblygiadau'r prinder hwnnw.

**►Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 01286 679652 neu ewch ati i ebostio partneriaethamgylcheddol@gwynedd.gov.uk.**

**Ceir gwybodaeth hefyd ar: www.pagwynedd.org.**

## TANYSGRIFIO

Croeso i chi danysgrifio'n bersonol os nad yw'r Papur Gwyrdd ar gael yn eich siop leol. Sieciau am £6 am 6 rhifyn (croesewir cyfraniadau ychwanegol i helpu gyda chostau postio) at: Y Papur Gwyrdd, 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX

## HYSBYSEBION

I hysbysebu yn Y Papur Gwyrdd, ffoniwch 01792 798162 neu ebostiwch am fanylion at: ypapurgwyrdd1@btinternet.com

## GWEFAN

Croeso i chi ymweld â'n Gwefan sydd â phyrth i'r Byd Gwyrdd — sef: www.ypapurgwyrdd.com

## Hwyl Nadolig Canolfan Moelyci

**CROESO cynnes i bawb i Ffair Nadolig Canolfan Amgylcheddol Moelyci, Tregarth, Bangor, ar Ddydd Sul, 14 Rhagfyr (11yb-4yh).**

**Bydd yno stondinau crefftau ardderchog, bwyd, cerddoriaeth ac adloniant — a'r mynediad am ddim.**

**Croeso i'r cyhoedd ymuno, hefyd, â dyddiau cadwraeth Rhagfyr, sef ar y 3ydd, 10fed ac 17eg (10yb-4yh). Cofiwch ddod â dillad addas.**

**Mae Moelyci yn ganolfan gymunedol sy'n gweithredu ac yn dysgu egwyddorion amgylcheddol.**

***► Llongyfarchiadau i John Harold a'r criw am y cyhoeddusrwydd diweddar yn y Guardian!***

## Gŵyl Llanerchaeron

CEIR cyfle ardderchog i ddewis cynnyrch lleol ar gyfer y Nadolig ym Mhlasty Llanerchaeron, Dyffryn Aeron, ar 6-7 Rhagfyr (11yb-4yh).

Bydd **Gŵyl Nadolig Llanerchaeron** — plasty a gerddi sydd wedi cael eu hadfer gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol — yn cynnwys dros 80 o stondinau.

Ceir amrywiaeth o gynnyrch lleol — bwydydd, gwaith coed, eitemau celf, tecstiliau ac ati. Ac ar ben hynny, tipyn o gerddoriaeth tymhorol, hefyd.

## Byd Natur Cymru gyda Iolo Williams

Y CYFLWYNYDD teledu Iolo Williams fydd y darlithydd ar noson arbennig iawn i naturiaethwyr yng Nghaernarfon ym mis Ionawr.

Bydd Iolo'n darlithio ar bwnc 'Byd Natur yng Nghymru' gan ddangos lluniau yn Y Galeri, ar nos Iau, 22 Ionawr.

Cynhelir y noson Gymraeg hon gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.

**►Tocynnau a manylion pellach o'r Galeri.**

## Dathliad moesegol Porthcawl

CAIFF trigolion ac ymwelwyr â Phorthcawl gyfle i fwynhau pryd bwyd Nadolig moesegol ar Ddydd Mercher, 10 Rhagfyr.

Ar y dyddiad hwnnw, bydd Tŷ Bwyta Coast yn Dock Street yn cynnig **Gwledd Nadolig Moesegol** gyda bwydydd masnach deg, lleol, ac organig.

**►Am fanylion pellach ffoniwch Rebecca ar 01656 783405, ebostiwch sussed@sustainablewales.org.uk, neu ffoniwch Tŷ Bwyta Coast ei hun ar 01656 782025**

## TT Bro Dyfi

MAE criw Trefi Trawsnewid Bro Dyfi yn cynnig sgyrsiau ynglyn â gwaith y mudiad i unrhyw grŵp neu gymdeithas sy'n dymuno hynny yn ardal Machynlleth.

"Dim ots pa mor fach yw'r grŵp," meddir, "Rydyn ni hyd yn oed wedi cyflwyno noson mewn ystafell frynt cyn hyn!"

Mae'r mudiad yn cwrdd yn y Llew Gwyn, Machynlleth, ar 2ail a 4ydd nos Fawrth bob mis.

**►Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â: transitiondyfi@yahoo.co.uk.**

## Newid hinsawdd— rhaglen S4C

**BYDD Iolo ap Dafydd, gohebydd BBC Cymru ar faterion amgylcheddol, yn cyflwyno rhaglen arbennig ar newid hinsawdd ar S4C am 9 o'r gloch ar nos Fawrth, 2 Rhagfyr.**

**Darlledir y rhaglen fel rhan o gyfres *O Flaen Dy Lygaid.***

**►Checiwch amseriad y darllediad yn y wasg leol.**

**► Croesawn eitemau at Ddaear-iadur YPG ynghyd ag erthyglau ac eitemau newyddion. Ebostiwch at: ypapurgwyrdd1@btinternet.com. Ffoniwch 01792 798162. Llythyrau at 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX**

# O'r ffrimpan i'r tân gydag olew tywod costus ...

**Mae hanner cyntaf yr Oes Olew yn dod i ben. Parhaodd am 150 o flynyddoedd gan weld twf cyflym diwydiant, trafnidiaeth, masnach, amaethyddiaeth a chyfalaf ariannol, gan alluogi'r boblogaeth i chwyddo chwech gwaith. Nawr mae'r ail hanner yn gwawrio, ac fe gaiff ei nodweddu gan leihad olew a phopeth sy'n dibynnu arno.** DR COLIN CAMPBELL Cymdeithas Astudio Brig Olew



► (Chwith) **Enghraifft o'r anrhaith anferth a achosir i'r Ddaear wrth godi olew tywod yn Alberta yng Nghanada ac America.**
*Llun: www.treehugger.com*

**GYDAG olew rhad yn diflannu ar garlam, mae'r tanwyddau ffosil newydd — fel olew tywod — sy'n cael eu codi ar frys gwyllt gan gorfforaethau ynni yn achosi llawer mwy o niwed i'r Ddaear.**

Ceir yr olew tywod a'r olew graean a godir yn yn lle'r olew rhad mewn ardaloedd anghysbell yng Nghanada a'r Unol Daleithiau.

Ar wahan i'r difrod amgylcheddol, mae'r olew tywod hwn yn achosi rhwng tri ac wyth gwaith mwy o allyriadau carbon niweidiol nag olew cyffredin hawdd-cyrraedd-ato, gan fygwth llwyddiant yr holl frwydr yn erbyn newid hinsawdd.

Dengys adroddiad gan wyddonwyr mudiad y Cooperative a'r WWF eu bod yn niweidiol i'r Ddaear yn amgylcheddol ac yn economaidd gan eu bod yn galw am lawer mwy o ynni i'w cloddio a'u puro.

Yn ôl rhai gwyddonwyr, byddai parhau i ddefnyddio'r olew tywod hyn yn gallu cyflymu newid hinsawdd i lefelau nas gwelwyd ers 55 miliwn blwyddyn.

Eu gobaith yw y gellir defnyddio deddfwriaeth y Gymuned Ewropeaidd i sicrhau na fydd y tanwyddau niweidiol newydd yn cael mynediad i wledydd Ewrop. ☐

**►Mae Mudiad newydd Trefi Trawsnewid yn ceisio paratoi pobl am fyd heb olew.**

**Gweler tud 3.**




Ffatri Abaca yn Nhŷ Croes



Rhiannon Rowley'n trafod llieini cotwm gyda Catrin Davies

# Llwyddiant organig — o Dŷ Croes i'r byd


**'Arwain y Byd ym myd y cwsg organig'** — **trowch at dud 5**



Ceri Rogers a Ryan Morris wrth eu gwaith



***... A Guto'r ci yn llywyddu dros y cyfan!***




Matresi organig syml i helpu babanod - a rhieni - gysgu'n dawel

**Abaca** **bywyd organig**

Abaca, Uned 1, Parc Busnes Tŷ Croes,
Rhydaman, Sir Gaerfyrddin SA18 3RZ

**01269 598491**
**info@abacaorganic.co.uk**



